
Cymdeithas Bob Owen

# Y Casglwr

Rhif 75 Pris i'r aelodau: £7.50 y flwyddyn • Pris i'r cyhoedd: £3.50 y rhifyn HAF 2002

## Diwrnod y Dathlu ym Mhortmeirion

Fe wawriodd y diwrnod hir ddisgwyliedig yn sych a heulog, a chyrhaeddodd pawb yn brydlon am ddeg o'r gloch i wynebu arddangosfa o fywyd Bob Owen, Croesor. Dwi'n cofio clywed John Roberts Williams yn datgan iddo nabod ffrind a oedd yn nabod cyfaill a oedd wedi gweld gwallt coch William Williams, Pantycel,yn ond roedd yna gyfle i bawb a oedd yn bresennol ar y bore Sadwrn yma weld cudyn o wallt Bob Owen ei hun. Fe roddodd y darn hwn yn llyfr lloffion Mattie Pritchard. Cefais ddeall gan Ifor Owen fod yntau hefyd wedi cael darn. Mae'n synod bod gan Bob Owen wallt ar ôl o gwbl! Buom yn ffodus i gael benthyg cerflun pren ohono a gerfiwyd gan aelod o'i ddosbarth yng Nghemaes, Sir Fon, drwy law Sian, merch Bob Owen.



*Bob Owen, Croesor.*

Wedi'r 'panad a'r bisgedi', casglodd pawb yn Neuadd Erciwl i wrando ar sgwrs gan Dyfed Evans. Cafwyd awr o wledd a mwyniant pur. Rhoddodd Dyfed inni beth o hanes y gwrthrych, a datgelodd rai profiadau wrth iddo gywain y gyfrol 'Bywyd Bob Owen' yn benodau yn *Y Cymro* ym mhumdegau'r ganrif ddiwethaf.

Pan aeth Dyfed i Groesor i roi pethau ar y gweill yn Awst 1958, yr oedd Dr Thomas Richards, Llyfrgellydd Coleg y Gogledd, yno ar ei wyliau blynyddol. 'Chi,' meddai hwnnw, 'Chi sy'n mynd i sgwennu hanes Bob Owen? Ydych chi'n meddwl y medrwch chi ysgrifennu hanes Bob Owen yn well na Bob Owen ei hun?' Aeth hyn, gellwch ddisgwyl, â'r gwynt o hwyliau Dyfed, braidd! Beth petai Bob Owen yn nogio? Dyna aeth drwy feddwl Dyfed ar y pryd. Ond yn ffodus, wnaeth o ddim, ac fe drefnwyd deuddydd o gyfweliadau. Fe smociai Bob Owen 24 o Wdbeins y dydd bryd hynny, ond 40 ar ddiwrnod y Cyngor Sir i leddfu ei nerfau, a thair yn ychwanegol pan oedd yn gadeirydd ddiwrnod y Pwyllgor Addysg! Do, mi smociodd ac mi siaradodd yn ddi-baid.

'Yn y dyddiau hynny, fe gafwyd coflaid go dda o ddeunydd,' meddai Dyfed. 'Ar ôl dechrau, doedd dim i'w wneud ond ceisio dilyn y trywydd i ble bynnag yr âi.

Mi wn i mi, fel tipyn o ohebydd, gael braint fawr yn croniclo camp anhygoel y gŵr annwyl, unigryw hwn, a ddaeth o weini ffarmwrs yn dair ar ddeg a hanner oed, heb awr erioed o goleg, yn brif achyddwr ei genedl, ac yn destun chwedl yn ei oes ei hun.'

Roedd pawb yn y neuadd y bore hwnnw wedi cael eu swyno, ac yn clywed Bob Owen ei hun yn bloeddio. Fe ddaeth yr awr i ben yn llawer rhy fuan. Mi fuom ni'n ffodus iawn i gael plant Bob Owen yno hefyd, – Nanw, Sian, ac Owain Tudur.

Wedi cyrraedd y gwesty moethus, fe gafwyd pryd arbennig iawn, a digon o gyfle i sgwrsio rhwng y cyrsiau. Yna cododd yr Athro Hywel Teifi Edwards ar ei draed, a thraethodd yn ei ffordd ddihafal ei hun, gan gyffesu nad oedd o'n gasglwr yn ystyr aelodau'r gynulleidfa o'r gair, gan eu bod hwy yn 'rhyw gasglwyr sbesial. Ond rwyf wedi derbyn *Y Casglwr* o'r rhifyn cynta' ac mae'n para yn ei flas heddiw fel roedd o pan ymddangosodd am y tro cynta'. Roedd ganddo, fodd bynnag, un gyfrol o'i ddyddiau cynnar yn ysgol fach Aberarth a oedd wedi ei swyno a'i gyfareddu. 'Ar bnawn dydd Gwener byddai John Jones y prifathro yn caniatau ichi fynd at gwpwrdd pîn, melyn a dewis llyfr, fel rheol yn Saesneg, ac yn eich gadael chi i'w ddarllen i chi'ch hun yn ystod cyfnod y *silent reading*, gan roi clamp o eiriadur Saesneg ichi ymlafnio drwy'r gyfrol ddewisiedig.' Ond un pnawn daeth Hywel, y plentyn, ar draws cyfrol hynod gyffrous – sef *The Flamebearers of Welsh History* gan Owen Rhoscomyl. Cododd ei chwilfrydedd wrth ddarllen y rhagair a oedd yn cyfeirio at y ffaith mai i fechgyn yn unig 'roedd hi'n addas. Roedd hynny yn sicr o ddenu plentyn deuddeg oed i'w darllen; a dyma a geir yn y rhagair;

*'No Welsh boy can well read the history of his ancestors – so stirring a record of so stubborn a race, such a good, grim, fighting race – without feeling that it is good to be a Cymro. No Welsh boy need ever again go to the history of other peoples for a record of*

*(Parhad ar dudalen 13)*